YR EGLWYS YNG NGHYMRU | THE CHURCH IN WALES

CORFF CYNRYCHIOLWYR YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE REPRESENTATIVE BODY OF THE CHURCH IN WALES

# GRWPIAU CYFEILLION – NODYN CYFARWYDDYD I BLWYFI

Pwrpas y ddogfen hon yw darparu gwybodaeth am Grwpiau Cyfeillion i blwyfi. Mae'n trafod beth yw Grŵp Cyfeillion, sut i asesu a fyddai un yn addas i'ch eglwys, sut i sefydlu un a'i statws cyfreithiol.

## Cyflwyniad

Gall sefydlu Grŵp Cyfeillion i eglwys fod yn ffordd effeithiol o ddenu cymorth a chodi proffil o'r tu allan i gymuned uniongyrchol yr eglwys. Yn aml, mae gan y gymuned ehangach gydymdeimlad mawr ag adeilad Eglwysig, ond efallai nad ydynt am addoli yno neu fod yn rhan uniongyrchol o fywyd yr eglwys. Gall Grŵp Cyfeillion fod yn ddolen rhwng y cymunedau seciwlar ac eglwysig ac uno diddordeb cyffredin i warchod adeilad arbennig a sanctaidd. Mae gweithgareddau grwpiau o'r fath yn cyfrannu'n gadarnhaol at fywyd y gymuned.

### Beth yw Grŵp Cyfeillion?

Grŵp o bobl sy'n rhannu diddordeb mewn adeilad arbennig. Gallant ddarparu cymorth ariannol drwy danysgrifiadau, rhoddion a thrwy godi arian neu roi cymorth ymarferol gyda phethau fel gwaith cynnal a chadw sylfaenol a digwyddiadau arbennig, fel cyngherddau, arddangosiadau celf a theithiau addysgol.

### Pwy fyddai am fod yn Gyfaill?

Unrhyw un! Gall unrhyw un sydd â diddordeb arbennig yn eich eglwys ddymuno bod yn Gyfaill. Efallai eu bod yn bobl sydd â chysylltiad â'r adeilad, er enghraifft, wedi cael eu bedyddio yno neu wedi priodi yno, neu fod perthnasau iddynt wedi'u claddu yn y fynwent. Efallai eu bod yn bobl o'r gymuned ehangach nad oes ganddynt gysylltiad â'r eglwys ond eu bod am helpu i'w chadw oherwydd ei harwyddocâd hanesyddol, pensaernïol neu archaeolegol. Efallai bod gennych chi Gyfeillion sydd am fod yn "ddefnyddwyr" eich eglwys yn y dyfodol - pobl sydd am briodi yno neu fedyddio eu plant yno. Efallai y bydd hyn yn eu hysbrydoli i ymuno â'r gymuned addoli hyd yn oed!

### Ydy Grŵp Cyfeillion yn iawn i fy eglwys i?

Mae'n dibynnu pa weithgareddau rydych am i'r grŵp fod yn rhan ohonynt. Er enghraifft, gellir sefydlu'r grŵp i helpu gyda thasg codi arian benodol yn unig ac y bydd yn dod i ben wedi hynny. Ar y llaw arall, efallai eich bod am i'r Cyfeillion fod yn grŵp mwy cynhwysol sydd yno i hyrwyddo pensaernïaeth a hanes yr adeilad, yn ogystal â helpu gyda gweithgareddau codi arian a digwyddiadau cymunedol.

## 1. Dechrau Grŵp Cyfeillion

Mae canfod a oes yna ddiddordeb mewn ffurfio Grŵp Cyfeillion a phenderfynu beth rydych chi am i'r grŵp ei gyflawni yn ymddangos fel sefyllfa'r iâr a'r wy! Pa un ddylech

chi ei wneud gyntaf? A ddylai'r Cyngor Plwyf Eglwysig[1] weld a oes unrhyw ddiddordeb cyn penderfynu beth maen nhw eisiau ei gyflawni neu a ddylid fynd o'i chwmpas hi fel arall? Gallai fod yn syniad da felly i'r Cyngor Plwyf Eglwysig ddechrau'r broses drwy edrych ar y problemau neu'r materion sy'n wynebu'r eglwys i ddechrau. A ellir datrys y rhain heb gael Grŵp Cyfeillion? Neu a allai grŵp helpu i ddatrys y materion hyn a gwneud cyfraniad gwerthfawr at y gwaith o redeg yr eglwys a'i hyrwyddo fel ased cymunedol?

Mae'r adrannau canlynol yn edrych ar y camau allweddol o sefydlu Grŵp Cyfeillion, o'r cynllun gweithredu cychwynnol i'r gwaith sefydlu ac yna ei roi ar waith yn barhaus. Trafodir perthynas y grŵp â'r Cyngor Plwyf Eglwysig, ei statws cyfreithiol a'i strwythur posibl hefyd.

**Y cynllun gweithredu**

Gofynnwch i'ch hun beth rydych chi am ei gyflawni fel Cyngor Plwyf Eglwysig. Efallai eich bod wedi gwneud hyn gyda chynllun plwyf neu ddatganiad gweledigaeth neu eich bod yn defnyddio'ch adroddiad arolygu pum mlynedd diweddaraf fel sail i raglen waith. Os felly, sut gallai Grŵp Cyfeillion eich helpu gyda hyn? Mae angen i chi fod yn glir sut bydd y grŵp yn rhan o weledigaeth gyffredinol eich eglwys yn y dyfodol. Mae'n rhaid i chi fod yn agored a thryloyw am y cynllun gydag unrhyw Grwpiau Cyfeillion arfaethedig gan ei bod hi'n bwysig sefydlu perthynas waith dda o'r dechrau. Gall fod yn syniad da felly i chi drafod y canlynol cyn sefydlu'ch Grŵp Cyfeillion:

**a) Cytuno ar raglen drwsio ar gyfer ffabrig yr eglwys**

Mae yna siawns go lew mai eich prif nod wrth sefydlu Grŵp Cyfeillion yw cael cymorth i gynnal a chadw a thrwsio'r adeilad. Os mai dyna sy'n wir, meddyliwch yn strategol! Paratowch raglen drwsio wedi'i diffinio'n briodol. Fyddwch chi ddim yn denu aelodau os na allwch chi ddangos pam mae angen eu cymorth arnoch (e.e. i drwsio'r to er mwyn gallu defnyddio'r adeilad at ddefnydd y gymuned ehangach).

Ystyriwch gael rhaglen blwyddyn, dwy flynedd neu dair blynedd i ddechrau. Bydd eich adroddiad arolygu pum mlynedd yn sail dda ar gyfer hyn. Gall cynllun tymor hwy (deg neu ugain mlynedd) fod yn briodol hefyd os ydych yn gwybod bod angen gwneud llawer o waith i ffabrig yr adeilad ac y bydd angen ei wneud bob yn gam wrth i'r arian ddod ar gael.

**b) Ystyriwch sut bydd Grŵp Cyfeillion yn rhan o'ch rhaglen drwsio**

Efallai yr hoffech i'r Cyfeillion helpu gyda chostau gwaith cynnal a chadw parhaus tra bod y Cyngor Plwyf Eglwysig yn canolbwyntio ar godi'r symiau mawr? Neu fe allent helpu gyda'r gwaith codi arian mawr drwy drefnu digwyddiadau neu helpu gyda cheisiadau am grantiau? Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n glir ym mha feysydd o'r rhaglen yr hoffech i'r Cyfeillion eich helpu, a rhannwch hyn â nhw.

**c) Gweledigaeth yr eglwys o fewn y gymuned leol ac yn ehangach**

[1] Defnyddir y term "Cyngor Plwyf Eglwysig" o fewn y ddogfen hon i ddisgrifio corff ymddiriedolwyr yr eglwys leol sy'n gyfrifol am reoli'r eglwys, y neuadd a'r fynwent. Gellir adnabod y cyrff hyn hefyd fel Cyngor yr Ardal Weinidogaeth, Cyngor yr Ardal Weinidogaeth Leol, Cyngor Bywoliaeth Reithorol, Cynhadledd Ardal Genhadaeth, neu unrhyw derm arall a ddynodir gan bolisïau'r esgobaeth.

Yn aml mae'n anodd meddwl am sut gall yr eglwys helpu ei chymuned pan mae yna waith trwsio adeiladau costus sydd angen ei wneud. Fodd bynnag, gall ymgysylltu â'r gymuned a gofyn iddynt beth maen nhw am ei gael o eglwys y plwyf, eich helpu i lywio'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae ymgynghori â'r gymuned yn dangos bod gan yr eglwys ddiddordeb mewn helpu'r gymuned nad yw'n addoli a gall hefyd ddangos nad yw'n "glwb ecsliwsif" ond yn barod ac yn awyddus i helpu. Er enghraifft, efallai bod angen lleoliad celfyddydol ar y gymuned a bod yr eglwys yn bwriadu ad-drefnu ei hun. Gall Grŵp Cyfeillion helpu i gydgysylltu'r ddau grŵp neu godi arian ar gyfer y prosiect.

Efallai bod yr eglwys mewn cyflwr da ond bod angen cymorth i hyrwyddo'r adeilad hardd i gynulleidfa ehangach. Gallai Grŵp Cyfeillion helpu drwy ddarparu tywyswyr, trefnu ymweliadau addysgol neu gynhyrchu llyfrynnau hanesyddol a hanes pensaernïol. Gallai'r holl weithgareddau hyn helpu i ddod ag arian ychwanegol, ar gyfer gwaith cynnal a chadw parhaus o bosibl.

## 2. Sefydlu'r Grŵp Cyfeillion

Dylai Cynghorau Plwyf Eglwysig ystyried y canlynol wrth feddwl am sefydlu Grŵp Cyfeillion:

### a) Oes yna ddiddordeb i ffurfio Grŵp Cyfeillion?

Yn gyntaf, holwch y Cyngor Plwyf Eglwysig, y gynulleidfa a'r gymuned ehangach i weld a oes unrhyw ddiddordeb i ffurfio grŵp o'r fath. Gellir gwneud hyn drwy ledaenu'r gair bod hyn yn cael ei ystyried a thrwy ddosbarthu taflenni yn y gymuned leol yn disgrifio'r eglwys a'i hanghenion. Mae cylchlythyron cymunedol a phapurau newydd lleol yn gyswllt pwysig arall. Gofynnwch i bobl gysylltu os hoffent fod yn rhan o'r gwaith o gynnal grŵp.

### b) Galwch gyfarfod i drafod y syniad

Bydd hi'n ddefnyddiol gwneud rhywfaint o waith paratoi sylfaenol ynghylch nodau ac amcanion y grŵp fel y gellir eu trafod (gweler yr adran gynharach – *y cynllun gweithredu*). Mae'n bwysig bod pawb yn gallu cyfrannu eu syniadau mewn ffordd agored a gonest, gan werthfawrogi y gallai pobl gynnwys sylwadau am sut mae'r Eglwys yn cael ei rhedeg – dydy beirniadaeth adeiladol ddim yn rhywbeth drwg!

### c) Ffurfioli'r broses

Bydd angen i'r Cyngor Plwyf Eglwysig wneud penderfyniad ffurfiol i sefydlu Grŵp Cyfeillion. Dylai bennu nodau clir i'r grŵp hefyd, fel:

- Helpu'r Cyngor Plwyf Eglwysig i adfer a chynnal yr Eglwys
- Trefnu gweithgareddau priodol i godi arian fel sy'n ofynnol gan y Cyngor Plwyf Eglwysig ar gyfer:
    - Adfer a chynnal a chadw'r Eglwys
    - Cynnal a gwella cyfleusterau ar gyfer addoli yn yr Eglwys
    - Harddu'r Eglwys

- Unrhyw waith brys a allai godi na ellir darparu ar ei gyfer o'r arian sydd ar gael i'r Cyngor Plwyf Eglwysig

Fodd bynnag, mae'n ddefnyddiol rhoi rhyw 'fudd' clir i'r Cyfeillion yn yr adeilad ar y dechrau. Enghraifft fyddai gofyn i'r Cyfeillion fod yn gyfrifol am y trefniadau i agor yr eglwys i ymwelwyr drwy ddrafftio arweinlyfrau, trefnu croesawyr, darparu lletygarwch a rhedeg siop rhoddion/llyfrau.

## 3. Strwythur y Grŵp Cyfeillion

Mae angen i chi feddwl sut bydd y Grŵp Cyfeillion yn cael ei drefnu a'i strwythur. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn argymell y dylai'r grŵp gael ei sefydlu o dan awdurdod y Cyngor Plwyf Eglwysig a bod yn is-bwyllgor ohono. Y nod yma yw sefydlu a gweithredu a sicrhau bod y grŵp yn gweithredu ag awdurdod llawn y Cyngor Plwyf Eglwysig. Gall trefniadau ariannol ac yswiriant gael eu trefnu drwy'r Cyngor Plwyf Eglwysig hefyd. Byddai is-bwyllgor y Grŵp Cyfeillion yn trefnu ei aelodaeth, ei ddigwyddiadau a'i weithgareddau ei hun, ac yn adrodd i'r Cyngor Plwyf Eglwysig yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na ddylai'r Grŵp Cyfeillion (fel is-bwyllgor y Cyngor Plwyf Eglwysig) edrych a theimlo'n wahanol i'r Cyngor Plwyf Eglwysig. Gallai gael ei logo a'i wefan ei hun, er enghraifft.

Dylech sicrhau'r canlynol wrth sefydlu'r Grŵp Cyfeillion:

- Dylai'r pwyllgor Cyfeillion ethol Cadeirydd, Ysgrifennydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth. Mae'n bwysig cael cymysgedd o bobl o'r cymunedau addoli/nad ydynt yn addoli felly ystyriwch gyfethol.

- Cytuno ar drefniadau ariannol y Cyfeillion. Byddai hyn yn cael ei wneud drwy drysorydd y Cyngor Plwyf Eglwysig er gan gyfrifo incwm a gwariant y Cyfeillion ar wahân.

- Cadw cofnodion o'r cyfrifon a chyhoeddi'r rhain o leiaf bob blwyddyn i'r aelodau a'r Cyngor Plwyf Eglwysig.

- Cytuno ar sut bydd aelodaeth y Cyfeillion yn cael ei threfnu (am ddim/ffi aelodaeth flynyddol; buddion aelodaeth – cylchlythyrau ac ati). Yn gyffredinol, codir ffi aelodaeth flynyddol o rhwng £5 a £15 i dalu costau postio, cylchlythyron, cylchgronau ac ati.

- Sicrhau cyswllt agos a rheolaidd rhwng aelodau'r Grŵp Cyfeillion a'r Cyngor Plwyf Eglwysig/y Gynulleidfa. Ystyriwch weithdrefn adrodd syml i alluogi'r Grŵp Cyfeillion i adrodd am eu gweithgareddau i'r Cyngor Plwyf Eglwysig, efallai ar ffurf cofnodion o'u cyfarfodydd. Mae angen annog a chroesawu'r Cyfeillion i'r Eglwys.

Defnyddiwch y pwyntiau uchod i lunio dogfen "cylch gorchwyl" syml sy'n amlinellu'ch gweithdrefnau a'ch arferion ar gyfer y Grŵp Cyfeillion. Gweler yr adran *Adnoddau* ar ddiwedd y canllaw hwn am ragor o wybodaeth.

Nid yw'r Eglwys yng Nghymru yn argymell Grwpiau Cyfeillion a sefydlir fel ymddiriedolaeth elusennol ar wahân, er y gallai hyn fod yn opsiwn o dan rai amgylchiadau. Mae hyn yn fwy cymhleth yn weinyddol ac yn gallu creu anawsterau o ran rhyngweithio rhwng dibenion elusennol ymddiriedolaeth ar wahân a'r Cyngor Plwyf Eglwysig. Mae'n rhaid i unrhyw Grŵp Cyfeillion sydd wedi cofrestru fel elusen ar wahân i'r Cyngor Plwyf Eglwysig gael mandad neu benderfyniad gan y Cyngor Plwyf Eglwysig sy'n nodi'r berthynas waith rhwng y ddau yn glir.

## 4. Statws cyfreithiol

O dan y Cyfansoddiad, mae gan y Cyngor Plwyf Eglwysig gyfrifoldeb i gynnal a chadw'r Eglwys tra bydd hi'n cael ei defnyddio. Ni all Grŵp Cyfeillion gael unrhyw fuddiant cyfreithiol yn yr adeilad ac mae'n rhaid i'r holl benderfyniadau ynghylch yr adeilad gael eu gwneud gan y Cyngor Plwyf Eglwysig.

Wrth sefydlu'r grŵp, dylid datgan yn glir nad oes gan y Cyfeillion unrhyw reolaeth dros yr adeilad a sut y caiff ei reoli. Yn amlwg, bydd y Cyfeillion yn codi arian ar gyfer y Cyngor Plwyf Eglwysig, a bydd gan yr aelodau ddiddordeb i wybod sut mae'r arian hwnnw'n cael ei godi, ond y Cyngor Plwyf Eglwysig fydd yn gyfrifol am drefnu gwaith a gwario'r arian. Mae'n bwysig felly bod y rheolau y bydd y Cyfeillion yn eu dilyn, a'u perthynas â'r Cyngor Plwyf Eglwysig, yn glir o'r dechrau.

## 5. Lansio'r Grŵp Cyfeillion

Mae'n bwysig eich bod chi'n hysbysebu presenoldeb y Grŵp Cyfeillion sydd newydd ei sefydlu i ddenu cymaint o aelodau â phosibl. Ffordd dda o wneud hyn yw cael diwrnod "lansio". Efallai bod gennych ddigwyddiad cymunedol ar y gweill (e.e. sioe flodau, cyngerdd, ac ati)? Os felly, byddai lansio'r grŵp ar yr un pryd yn syniad da gan y bydd nifer o ddarpar aelodau wedi dod ynghyd eisoes. Gwnewch yn siŵr bod gennych chi bosteri a thaflenni o ansawdd da wrth law i'w dosbarthu, a phobl yno i ateb cwestiynau am pam rydych chi'n ffurfio'r grŵp, a beth yw manteision bod yn aelod o grŵp.

Gall diwrnod penodol wedi'i neilltuo i lansio'r grŵp fod yn syniad da hefyd os ydych chi am gyrraedd pobl drwy eu targedu'n well. Fodd bynnag, mae angen i chi sicrhau y bydd y digwyddiad yn denu cymaint o bobl â phosibl, felly mae ei hysbysu'n eang yn hollbwysig. Mae angen dosbarthu taflenni i gartrefi a gosod posteri yn y plwyf i hysbysu'r digwyddiad ymhell cyn y diwrnod lansio. Mae hysbysebu mewn papurau neu gylchgronau lleol am ddim yn syniad da hefyd, a chysylltu â'ch gorsaf radio neu bapur newydd lleol i weld a fydden nhw'n barod i roi sylw i'r lansiad. Hefyd, cysylltwch â'r esgobaeth oherwydd gallant gyhoeddi'r digwyddiad mewn cylchlythyron neu ohebiaeth sy'n cael eu hanfon ganddynt.

Os ydych chi'n cael diwrnod lansio ar wahân gwnewch yn siŵr bod gennych chi raglen o weithgareddau wedi'u cynllunio – rydych am ddenu pobl i ymuno â'r Grŵp Cyfeillion wedi'r cyfan! Efallai y gallech wahodd rhywun pwysig neu enwog o'r ardal i agor y digwyddiad neu gael rhywun i siarad am hanes ac arwyddocâd yr eglwys (e.e. hanesydd neu bensaer lleol) mewn araith agoriadol? Darparwch luniaeth (a chyfleusterau toiled) gydol y dydd a "chynorthwywyr" i helpu pobl gydag unrhyw ymholiadau sydd ganddynt am ymuno â'r grŵp.

Cofiwch ddilyn y lansiad drwy gysylltu â'r bobl a gofrestrodd ar y dydd i fod yn aelodau. Anfonwch lythyr croeso atynt gyda gwybodaeth am weithgareddau'r grŵp, sut y gallant gymryd rhan yn y dyfodol ac unrhyw ddigwyddiadau rydych yn bwriadu eu cynnal.

## 6. Gweithredu parhaus

Os ydych wedi gweithio'n galed i recriwtio aelodau, gwnewch yn siŵr eich bod yn eu cadw! Peidiwch â distewi ar ôl y lansiad. Mae cyfathrebu'n allweddol. Gadewch i bobl wybod beth rydych chi'n ei wneud gyda'u tanysgrifiadau neu roddion, sut rydych chi'n gwario'r arian hwn a beth sydd gennych chi ar y gweill ar gyfer y dyfodol. Ystyriwch sefydlu'ch gwefan eich hun neu gael tudalen ar wefan y plwyf. Agorwch gyfrif Facebook neu Twitter, anfonwch gylchlythyrau rheolaidd, cylchgronau ac adroddiadau/cyfrifon blynyddol. Mae'n hanfodol cadw mewn cysylltiad ag aelodau.

Cynlluniwch ddigwyddiadau rheolaidd y gall aelodau a phobl eraill eu mynychu. Defnyddiwch y rhain i recriwtio aelodau newydd a chadw'r rhai cyfredol yn hapus. Does dim angen i'r holl ddigwyddiadau fod yn yr eglwys felly ystyriwch ddefnyddio lleoliadau lleol eraill (e.e. neuaddau pentref, tafarndai ac ati). Mae syniadau ar gyfer digwyddiadau yn cynnwys cyngherddau, dramâu, sioeau blodau a llysiau, ffeiriau crefft/celf, barbeciws, nosweithiau cwis, nosweithiau blasu gwin/cwrw a nosweithiau hanes lleol. Efallai y bydd grwpiau lleol yn fodlon gweithio gyda'r Grŵp Cyfeillion i "gyd-gynnal" digwyddiadau a fyddai o fudd i'r ddau barti e.e. sgowtiaid, geidiaid, ysgol ac ati.

Cynhaliwch gyfarfodydd rheolaidd gyda'r aelodau (a ddylai fod yn agored i'r gymuned leol hefyd) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am waith parhaus y grŵp ac i helpu gyda gweithgareddau'r dyfodol. Gwnewch yn siŵr eich bod bob amser yn cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol i sicrhau bod aelodau'n gwybod sut mae eu harian yn cael ei wario a beth sydd ar y gweill gan y grŵp i'r dyfodol. Gallech drefnu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyn neu ar ôl digwyddiad a gynlluniwyd er enghraifft, pan fydd pawb yn yr un lle.

Bydd aelodaeth yn gostwng yn raddol yn naturiol os na chymerir camau cadarnhaol i recriwtio aelodau newydd. Peidiwch â gorffwys ar eich rhwyfau! Lledaenwch eich rhwyd yn ehangach na'r gymuned leol i gael aelodau. Beth am gysylltu â phobl sy'n byw i ffwrdd ond sy'n dal i fod â chysylltiadau â'r eglwys neu'r gymuned leol. Gofynnwch i'r trigolion lleol a fyddent yn barod i awgrymu pobl i gysylltu â nhw. Edrychwch ar gofrestri plwyf ac etholwyr, cofnodion priodasau, bedyddiadau a marwolaethau am enwau cyswllt. Gwahoddwch nhw i ddod yn Gyfeillion, gan sicrhau eich bod chi'n esbonio'r manteision a beth rydych chi'n ceisio ei gyflawni. Mae'n bwysig iawn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau'r grŵp i aelodau "pell" gan na fyddant yn gallu dod i lawer o'r digwyddiadau mae'n debyg.

## 7. Trefniadau eraill

Weithiau bydd cynulleidfa, drwy ei Chyngor Plwyf Eglwysig, yn cael trafferth i gynnal adeilad ac felly bydd Grŵp Cyfeillion (neu Grŵp Cymunedol arall) yn cyflwyno syniad i gymryd yr adeilad drosodd.

Fel elusen, mae gan yr Eglwys yng Nghymru rwymedigaeth i sicrhau gwerth gorau pan mae'n gwaredu tir (gwerthu, prydlesu neu roi ac ati). Fel ymddiriedolwyr, bydd

Corff y Cynrychiolwyr yn ystyried pob achos ar sail ei haeddiant ei hun, gan edrych ar werth ariannol yr eiddo a gwerth unrhyw gynnig i genhadaeth a gweinidogaeth yr eglwys.

Yn amlwg, os yw hi'n bosibl i grŵp newydd gymryd cyfrifoldeb am adeilad, efallai at ddibenion cymunedol ehangach, gan gadw rhyw fath o ddefnydd ar gyfer addoliad, gallai hynny fod o fantais i bawb.

# ADNODDAU

Mae yna nifer o sefydliadau sy'n cynnig rhagor o wybodaeth am ffurfio Grŵp Cyfeillion. Mae'r prif rai wedi'u rhestru isod.

**Gwefan Adnoddau Plwyfi Eglwys Loegr**
Mae'r wefan yn cynnwys tudalen ar gyfer Cynlluniau Cyfeillion a allai fod yn ddefnyddiol i blwyfi. Byddwch yn ymwybodol bod y cyfeiriadau at ddeddfwriaeth ond yn berthnasol i eglwysi Eglwys Loegr yn unig:

www.parishresources.org.uk

**Esgobaeth Llundain (Eglwys Loegr)**
Mae Esgobaeth Llundain wedi cyhoeddi eu pecyn cymorth eu hunain ar gyfer creu Grwpiau Cyfeillion newydd:

www.london.anglican.org

**Yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol**
Mae gwefan yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys adran bwrpasol ar sefydlu Grŵp Cyfeillion lle gallwch lawrlwytho pecyn cymorth a chyfansoddiad enghreifftiol i'ch helpu chi i sefydlu un. Dylid nodi bod y cyngor hwn ar gyfer sefydlu Grŵp Cyfeillion fel Ymddiriedolaeth Elusennol ar wahân i'r Cyngor Plwyf Eglwysig ac nad dyma'r opsiwn a ffefrir ar gyfer eglwysi yr Eglwys yng Nghymru. Fodd bynnag, gall y model hwn fod yn opsiwn dan rai amgylchiadau. Os ydych chi'n credu mai dyma'r model rydych am ei fabwysiadu, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cael cyngor gan Swyddog yr Esgobaeth neu siaradwch ag adran Gwasanaethau Eiddo Corff y Cynrychiolwyr *cyn* ei sefydlu. Mae yna ddolenni defnyddiol i'r Comisiwn Elusennau a CThEF o wefan yr Ymddiriedolaeth.

www.nationalchurchestrust.org

Tina Andrew
Rheolwr Cadwraeth a Chymorth Eglwysi
Yr Eglwys yng Nghymru
30 Awst 2019